# Ailgylchu eich bagiau a deunydd lapio plastig

**Mae preswylwyr Bro Morgannwg eisoes yn ailgylchu 71% o'u gwastraff – gan ragori ar darged ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru – ond rydym am eich helpu i ailgylchu mwy fyth.**

**Yn dechrau DDYDD LLUN 13 EBRILL 2026**

**O ddydd Llun 13 Ebrill 2026, rydym yn cyflwyno gwasanaeth casglu newydd ar gyfer eich bagiau a deunydd lapio plastig.**

Yn dilyn treial llwyddiannus gyda 16,000 o gartrefi ym Mhenarth, byddwn nawr yn casglu'r eitemau hyn o bob cartref ledled Bro Morgannwg.

Ar ôl eu casglu, byddwn yn **ailgylchu eich bagiau a deunydd lapio plastig i greu cynhyrchion newydd**, fel Bagiau am Oes a bagiau bin.

Drwy ailgylchu'r eitemau hyn yn lle eu rhoi yn eich bagiau du, bydd yn:

- **lleihau ein dibyniaeth ar ddeunyddiau newydd neu 'ddeunydd crai' i greu nwyddau plastig untro** fel bagiau bin,
- eich galluogi i **ailgylchu mwy o'ch gwastraff o'ch cartref**,
- ein helpu i **gyflawni ein targedau carbon ac ailgylchu yng Nghymru**, a
- sicrhau ein bod yn parhau i fod yn **un o'r gwledydd gorau yn y byd am ailgylchu**.




**Wyddoch chi fod… bron i 10% (9.8%) o'r hyn sydd yn eich bagiau du yn fagiau a deunydd lapio plastig?**

## Bro Morgannwg yn ailgylchu
## Vale of Glamorgan recycles

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch

At ddefnydd swyddfa'n unig: 2026/02/PlasticBagCollections

# Beth ddylwn i ei wneud?

Gyda'r daflen hon, rydym wedi danfon i'ch cartref **rolyn o sachau glas**.



**O ddydd Llun 13 Ebrill 2026**, os gwelwch yn dda:

1. **rhowch eich bagiau a deunydd lapio plastig gwag mewn sach las** (gweler y dudalen nesaf am y mathau o eitemau y byddwn yn eu casglu gennych)

2. ar ôl ei llenwi, **clymwch eich sach yn ddiogel gyda chwlwm dwbl** i atal ei chynnwys rhag dianc

3. **rhowch eich sach wedi'i chlymu y tu mewn i'ch bag glas ailddefnyddiadwy - ar ben eich metelau, plastigion a chartonau cymysg** - yna caewch gaead fflap eich bag a'i osod allan ar eich diwrnod casglu arferol



**Rhowch fagiau a deunydd lapio plastig yn rhydd yn eich sach. Peidiwch â rhoi un eitem y tu mewn i un arall. Mae hyn yn helpu i wneud ailgylchu'n haws.**

**Pan fyddwch angen mwy o sachau**, ewch i'ch llyfrgell leol i gasglu rholyn newydd, neu cysylltwch â ni.

## Atgoffwch fi - beth sy'n mynd yn fy mag glas ailddefnyddiadwy?







- **Caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel**
- **Poteli, potiau a thybiau plastig**
- **Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak**

**Peidiwch â rhoi'r eitemau hyn yn eich sachau glas ar gyfer bagiau a deunydd lapio plastig.**

# Pa eitemau ddylwn i eu rhoi yn fy sachau?





**Bagiau siopa**




**Pecynnau creision a chnau**



**Pecynnau bisgedi**



**Pecynnau bariau siocled a melysion**




**Bagiau pasta a reis**




**Bagiau bara**



**Bagiau leinio bocsys grawnfwyd**




**Bagiau parseli/ danfoniadau plastig**




**Labeli/pecynnau plastig o amgylch poteli diodydd**



**Bagiau bwyd cathod a chŵn**



**Bagiau sychlanhau a bagiau lapio dillad newydd**



**Deunydd pacio plastig a ddefnyddir gan adwerthwyr i ddosbarthu eitemau cartref, megis nwyddau gwyn**



**Bagiau compost gardd ac uwchbridd**



**Deunydd lapio a ddefnyddir ar gyfer pecynnau aml-becyn creision, cnau a melysion**




**Bagiau ffrwythau, salad a llysiau wedi'u pacio'n barod**



**Bagiau plastig tenau sy'n dal eitemau ffrwythau, salad a llysiau rhydd**



**Ffilm, fel caeadau prydau parod**




**Bagiau rhewgell**



**Bagiau bwyd rhewgell**



**Deunydd lapio cylchgronau a phapurau newydd**



**Deunydd lapio aml-becyn a dolenni plastig o becynnau poteli a chaniau**




**Deunydd lapio pecynnau o bapur toiled a phapur cegin**

**Sicrhewch nad oes bwyd a hylifau ar eich eitemau.**

# Pa eitemau NA ddylwn i eu rhoi yn fy sachau?


Haenen lynu


Polystyren neu ewyn


Tiwbiau creision


Codenni neu sachets a ddefnyddir ar gyfer bwyd (fel reis microdon), diodydd, bwyd babanod neu anifeiliaid anwes


Bagiau rhannu neu godenni a ddefnyddir ar gyfer siocledi neu losin


Codenni neu sachets a ddefnyddir ar gyfer nwyddau glanhau, fel capsiwlau neu dabledi peiriant golchi llestri neu olchi dillad


Rhwydi plastig a ddefnyddir i bacio ffrwythau a llysiau


Pocedi tyllog, fel 'Poly Pockets'


Gwellt neu gyllyll a ffyrc plastig


Menig neu fasgiau tafladwy


Caeadau potiau iogwrt a hufen


Pecynnau swigod a ddefnyddir ar gyfer tabledi


Gwastraff bwyd


E-sigaréts neu fêps


Gwastraff anifeiliaid anwes


Batris

Rhowch eich **gwastraff bwyd** yn eich **cadi gwyrdd**.
Ewch ag unrhyw **e-sigaréts** neu **fêps** i'ch **Canolfan Ailgylchu** leol.
Parhewch i roi **gweddill yr eitemau hyn** yn eich **bagiau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu**.

Mae eich **ailgylchu** yn gwneud **gwahaniaeth MAWR** ym Mro Morgannwg.


www.valeofglamorgan.gov.uk/ailgylchu
C1V@valeofglamorgan.gov.uk
01446 700111
Cyngor Bro Morgannwg
@cbro_morgannwg